# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 23-08)

**Dyddiad: 8 Hydref 2008**
**Amser: 9:30 - 11:25am**
**Lleoliad: Neuadd Goffa'r Barri**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Gareth Jones, (Cadeirydd) Aberconwy
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
Christopher Franks, Canol De Cymru
Jane Hutt, Bro Morgannwg
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr Pwyllgor

Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn Bresennol

Gareth Howe, Llywydd, 'Pride in Barry'
John Maitland Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg
Rob Quick, Cyfarwyddwr Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd
Chris Fray, Pennaeth Datblygu Economaidd a Hamdden
Mike Jones, Swyddog Arian Allanol
Dave Williams, Prif Swyddog Adfywio

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod gan nodi pa mor falch yr oedd bod y pwyllgor yn cyfarfod yn Neuadd Goffa'r Barri.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman a Jeff Cuthbert.

1.3 Roedd y Cadeirydd wedi rhoi caniatâd i Alun Cairns AC, Christopher Franks AC a Jane Hutt AC gymryd rhan yng nghyfarfod y pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 10.43.

### 2: Tystiolaeth i'r Pwyllgor ar ddeiseb 'Pride in Barry'
### Papurau: EL(3) 23-08 - Papur 1, EL(3) 23-08 - Papur 2

2.1 Cafodd y pwyllgor gyflwyniad PowerPoint ar ddeiseb 'Pride in Barry'.

2.2 Croesawodd y pwyllgor Gareth Howe, Llywydd, Pride in Barry.

2.3 Croesawodd y pwyllgor John Maitland Evans, Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg; Rob Quick, Cyfarwyddwr Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd; Chris Fray, Pennaeth Datblygu Economaidd a Hamdden; Mike Jones, Swyddog Arian Allanol; a Dave Williams, Prif Swyddog Adfywio.

2.4 Bu'r pwyllgor yn holi'r tystion.

2.5 Bydd y pwyllgor yn trafod rhagor o dystiolaeth gan y prif ddeisebwr ac yn craffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn y cyfarfod ar 5 Tachwedd 2008.

### 3: Sesiwn Meicroffon Agored i'r Cyhoedd

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y cyhoedd i roi eu sylwadau neu i ofyn cwestiynau am ddeiseb 'Pride in Barry' a materion cysylltiol.

Rhoddodd y Cynghorydd Neil Moore sylwadau. Darllenodd y Cadeirydd ohebiaeth ysgrifenedig gan y Cynghorydd Richard Bertin.

### 4: Y Mesur Prentisiaethau Drafft - Ymateb i'r Ymgynghoriad
### Papur: EL(3) 23-08 - Papur 3, Atodiad

4.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'i ymateb interim i'r Mesur Prentisiaethau Drafft.

4.2 Bydd ymateb interim y pwyllgor yn cael ei osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl a'i anfon at Gadeirydd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Arloesedd, Prifysgolion, Gwyddoniaeth a Sgiliau cyn bo hir.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 22-08 - Cofnodion

Cadarnhaodd y pwyllgor gofnodion cyfarfod 1 Hydref. .

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2008**